

# Huw Williams

## yn trafod alawon Cymreig Almaenig eu harddull o law Sgotyn

### II

*Yn y rhifyn diwethaf, trafododd yr awdur gefndir cyhoeddi'r tair cyfrol o alawon Cymreig gan George Thomson yng Nghaeredin, ynghyd â geiriau'r gyfrol. Y tro hwn, mae'n canolbwyntio ar y gwaith o gomisiynu'r trefniannau cerddorol, a hefyd werthiant y copïau.*

Os mai cymysg oedd profiadau George Thomson wrth ddelio â'r beirdd hynny a luniodd eiriau ar ei gais ar gyfer casgliadau 1809, 1811 a 1817, cymysg iawn hefyd oedd ei brofiadau wrth ddelio â Kozeluch, Haydn a Beethoven, tri o brif gerddorion y casgliadau. Olynydd Mozart fel cyfarwyddwr cerdd yn Llys Leopold yr Ail oedd Kozeluch, cerddor o'r radd flaenaf, wrth reswm, ond bu peth anghydfod rhyngddo a Thomson wrth y gwaith o addasu alawon Cymreig, a hynny mae'n debyg oherwydd ei ddiffyg profiad yn y maes arbennig hwnnw. Haydn, mae'n amlwg, oedd ffefryn mawr Thomson, a hwyrach y byddai wedi bod yn well o lawer - ac yn fwy manteisiol hefyd o safbwynt masnachol - petai Thomson wedi ymddiried yr holl waith o drefnu'r alawon ar gyfer ei dri chasgliad iddo ef.

Prif anfantais Beethoven wrth geisio addasu cyfeiliannau ar gais Thomson oedd na fedrai - yr adeg honno beth bynnag - ddarllen Saesneg. Nid oedd ychwaith wedi sylweddoli ar gychwyn yr ohebiaeth a fu rhyngddynt fod y Sgotyn yn erchi geiriau yn ogytal â chyfeiliannau newydd ar gyfer alawon y tri chasgliad, ac mewn nodyn at Thomson dyddiedig Gorffennaf 20, 1811, mae'n mynegi ei anfodlonrwydd â'r gwaith y disgwyliid iddo ei gyflawni, sef llunio cyfeiliannau addas ar gyfer cerddi heb fod y geiriau o'i flaen! Tybed a oedd Thomson wedi ymatal yn hollol fwriadol rhag anfon at y cyfansoddwr enwog y geiriau y dymunai eu gweld, a hynny am na themlai yn ei galon y byddai'r Almaenwr rhyw lawer ar ei fantais petai yn eu hanfon ato?

Yna, mewn llythyr dyddiedig Chwefror 19, 1813, ac wrth ymateb i dri llythyr a dderbyniasai o Gaeredin oddi wrth Thomson, mynegodd Beethoven ei falchder o ddeall fod ei waith yn addasu 62 o alawon yn boddhau'r cyhoeddwr. Ond yr oedd naw o'r alawon wedi eu rhestru gan Thomson fel rhai y dylid ail-drych arnynt. Ymatebodd

Beethoven braidd yn chwyrn trwy ddweud nad oedd yn barod i newid dim ar yr alawon y bernid eu bod yn anaddas; nid oedd yn arferiad ganddo ail-wampio ei gynhyrchion ef ei hun, meddai, ond byddai'n



Leopold Kozeluch:  
mezzotint gan William Ridley

eithaf parod i ail-ysgrifennu! Gyda llaw, mae'n amlwg i Beethoven yr adeg hon dramgwyddo Thomson trwy gyfeirio ato mewn llythyr fel 'Music-seller'. Wrth ymateb mewn llythyr dyddiedig Mawrth 20, 1815, pwysleisiai Thomson nad 'Music-seller' mohono. *I sell nothing but my national airs, and those wholesale,* meddai!

Yn olaf, beth ynteu am werthiant y tair cyfrol a gyhoeddwyd gan Thomson yn 1809, 1811 a 1817? Ei dystiolaeth ef ei hun oedd fod chwe chant o gopïau o'r gyfrol gyntaf wedi eu gwerthu erbyn 1812, ond mae'n ymddangos mai araf iawn fu'r gwerthiant ar ôl hynny. Yn gynnar yn 1814 (er nad oedd y tair cyfrol eto wedi ymddangos gyda'i gilydd ar y farchnad) pwysleisiodd Thomson ei fod yn hyderus y byddai'r antur yn cael ymateb ffafriol, yn bennaf oherwydd ansawdd arbennig y geiriau a'r gerddoriaeth! Ychydig yn ddiweddarach, mewn llythyr at Yr Athro Smyth, pwy bynnag oedd hwnnw, mynegodd fod y gwerthiant wedi ei siomi, a methai â dirnad pam fod y gweithiau Cymreig wedi cael cyn lleied o sylw, gan ystyried fod y geiriau wedi cael eu cysylltu â chyfeiliannau gan dri o brif feistriaid cerdd Ewrop!

Bu'r antur nid yn unig yn fethiant artistig, ond hefyd yn fethiant ariannol, oherwydd yn 1811, gyda dwy o'r tair cyfrol yn unig erbyn hynny ar y farchnad, roedd Thomson yn mynd ati i werthu'r holl stoc ynghyd â'r hawlfraint. Cynigiodd y ddwy gyfrol i Preston (y cyhoeddwr yn Llundain, a'i asiant yn

Lloegr) - cynnig a olygai golled ariannol iddo - ond gwrthododd Preston y cynnig. Gwnaethpwyd cynnig tebyg i gwmni Clemanti, ond fe wrthododd hwnnw hefyd. Yna, yn 1814, cynigiodd werthu'r copïau o'r ddwy gyfrol unwaith eto i Preston, y tro hwn ar ôl gweld beth fyddai cyfanswm y costau o baratoi'r drydedd gyfrol, sef £290, gan wneud cyfanswm costau'r tair cyfrol yn £794. Roedd £236 wedi cael ei dalu i'r cerddorion yn unig, meddai.

Mewn llythyr personol dyddiedig Mehefin 14, 1814, mae Thomson yn cyfaddef wrth Preston ei fod yn ariannol mewn dyfroedd dyfnion iawn yn dilyn cyhoeddi'r alawon Gwyddelig a Chymreig, gyda dyled o bedwar cant o bunnau i'w dileu o fewn deufis, ac yntau heb arian heblaw yr hyn oedd yn deillio'n achlysurol o'r gwerthiant. Ac yr oedd hynny bron dair blynedd cyn bod y drydedd gyfrol o alawon Cymreig wedi gweld golau dydd!

Gan nad oedd neb yn mynegi parodrwydd i brynu ganddo, gostyngodd Thomson y pris am y ddwy gyfrol gyntaf i £300, gan fynegi ei barodrwydd i roi'r dewis i unrhyw brynwr i wrthod y drydedd gyfrol, neu ynteu ychwanegu'r swm o £290 at y pris terfynol.

Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r cynnig diweddaraf hwn erbyn 1839, pan oedd y gwerthiant wedi arafu'n sylweddol ond, yn 1847, a'r gwerthiant erbyn hynny wedi peidio, penderfynodd Thomson roi'r stoc, yn cynnwys cyfanswm o saith gant o gyfrolau, ynghyd â phlatiau a hawlfreintiau, ar werth am ganpunt. Unwaith eto, methiant fu pob ymgais i ddenu prynwr, nes yn y diwedd i Thomson benderfynu rhoi'r holl stoc ar werth, yn gymysg â chyfrolau eraill, am brisiau gostyngol.

Rhywbeth yn debyg hefyd oedd profiad Thomson wrth geisio gwerthu copïau o ddwy gyfrol o alawon Gwyddelig a gyhoeddodd yn 1814 ac 1816; ni lwyddodd i werthu'r rheiny ychwaith i gwmni Preston am brisiau gostyngol, er bod y cynnig yn golygu colled drom iawn iddo. Llosgodd ei fisedd hefyd wrth geisio gwerthu'r chwe chyfrol 'Royal Otavo', yn cynnwys yr hyn a dybiai ef oedd y goreuon o alawon Cymru, Yr Alban ac Iwerddon. Gostyngwyd prisiau'r cyfrolau hynny o ddeuddeg swllt i wyth swllt yr un, nes yn 1849 i'r holl gasgliadau (gan gynnwys y rhai

Cymreig) gael eu gwerthu i George Wood, gwerthwr cerddoriaeth yng Nghaeredin, am £150. Amcangyfrifai Thomson fod y cyfan wedi costio iddo dros ddwy fil o bunnau, gyda hanner y swm hwnnw wedi cael ei dalu i feirdd a cherddorion mewn arian ac anrhegion. Ni chlywyd dim rhagor am y stoc enfawr a brynwyd gan George Wood, heblaw fod y copïau wedi cael eu gwerthu unwaith eto, y tro hwn i John Blockley o Lundain. Beth a fu hanes y copïau ar ôl hynny sydd ddirgelwch llwyr.

Fe ellid dadlau mai prif anfantais George Thomson i ymgymryd â'r gwaith o ddarparu casgliadau o alawon ein cenedl oedd ei ddiffyg gwybodaeth o'r iaith Gymraeg, a hefyd iddo fethu â chysylltu â neb cymwys yng Nghymru i'w gynghori'n 'broffesiynol'. Ni sylweddolodd ychwaith fod i'n halawon eu harddull a'u nodweddion arbennig eu hunain, a bu'n annoeth pan benderfynodd newid rhai o'r alawon hynny er mwyn ffitio geiriau Saesneg ar eu cyfer. Gan iddo wneud hynny, nid oedd ei gasgliadau'n cynnwys trefniannau dilys o alawon cenedlaethol ein cenedl. Erbyn tua 1830, cafwyd awgrym fod Thomson ei hun wedi sylweddoli iddo wneud amryw o gamgymeriadau, gan gynnwys perswadio tri o gerddorion amlwg ei gyfnod i ymyrryd â'n halawon (a hynny am nad oedd neb yn yr Alban, yn ei farn ef, yn gymwys i gyflawni'r gwaith), gyda'r canlyniad mai tri o gasgliadau o'n halawon telyn gyda chyfeiliannau ar gyfer piano, a gyhoeddwyd mewn gwirionedd. A phan gysylltodd â rhai o feirdd amlwg ei ddydd a llwyddo i'w perswadio i ysgrifennu geiriau ar gyfer yr alawon, cafodd dipyn o sioc pan fu rhai o'r beirdd yn ddigon gonest i gyfaddef wrtho na wyddent ddim am fwsig!

Bu George Thomson farw yng Nghaeredin ar Chwefror 18, 1851, ar drothwy ei 94 oed, ac fe'i claddwyd wrth ochr ei briod ym mynwent enwog Kensal Green, lle (yn ôl cyfaill a ymwelodd â'r fynwent ar fy rhan) y gwelir geiriau ar ei garreg fedd yn cael eu priodoli i Charles Dickens. Ni pherthyn i Thomson anfarwoldeb fel cerddor. Yn hytrach, fe'i cofir heddiw fel gŵr a ymroes i gasglu a chyhoeddi alawon rhai o'r gwledydd Celtaidd, gan gychwyn yn bur gynnar yn ei fywyd, a pharhau â'r gwaith hwnnw am ddeugain mlynedd neu ragor o'i fywyd.